# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

## Offerynnau Statudol a osodwyd yn ystod y toriad neu cyn diddymiad y Pedwerydd Cynulliad

## Diben

1.Mae'r papur hwn yn gofyn i'r Pwyllgor gymeradwyo'r trefniadau adrodd ar gyfer unrhyw Offerynnau Statudol a osodwyd yn rhy hwyr gerbron y Pedwerydd Cynulliad i gael eu hystyried gan y Pwyllgor hwn.

## Cefndir

2.Mae'n bosibl y bydd Offerynnau Statudol yn cael eu cyflwyno ar ôl y dyddiad cau ar gyfer cyhoeddi papurau ar gyfer cyfarfod olaf y Pwyllgor ar 14 Mawrth 2016.

3.Gall y Llywodraeth gyflwyno Offerynnau Statudol hyd at 5 Ebrill, y diwrnod cyn y diddymiad.

4.Mae'n annhebygol y bydd olynydd y Pwyllgor yn y Pumed Cynulliad yn gallu ystyried yr Offerynnau hyn o fewn y terfyn amser o 20 niwrnod ar gyfer cyflwyno adroddiad. Hefyd, mae'n bosibl na fydd olynydd y Pwyllgor yn gallu eu hystyried tan ar ôl y terfyn amser dirymu o 40 niwrnod.  Bydd hyn yn golygu y bydd yr Offerynnau wedi osgoi'r broses graffu arferol.

## Trafodaeth

5.Mae cynghorwyr cyfreithiol wedi gallu adrodd ar yr holl Offerynnau a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru cyn dydd Iau 10 Mawrth (y diwrnod y caiff papurau'r pwyllgor eu cyhoeddi.)

6.Er mwyn sicrhau bod Offerynnau Statudol a gyflwynwyd rhwng 11 Mawrth a 5 Ebrill yn cael eu tynnu at sylw Aelodau'r Cynulliad newydd yn y Pumed Cynulliad, cynigir y dylid cyflwyno adroddiad ar sail rhagoriaeth gerbron y Pedwerydd Cynulliad ar 5 Ebrill 2016.

7.Bydd yr adroddiad yn rhoi manylion yr holl Offerynnau Statudol a osodwyd yn ystod y toriad cyn y diddymiad ac yn nodi bod yr Offerynnau'n ddarostyngedig i adroddiad ar sail rhagoriaeth yn unol â Rheol Sefydlog 21.3(ii), sef y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol roi sylw arbennig i'r Offeryn Statudol gan ei fod yn ymwneud â materion polisi cyhoeddus sy'n debygol o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad.

8.Cynigir bod y Cadeirydd yn gosod yr adroddiad hwn (gweler adroddiad arfaethedig yn Atodiad 1) ar ran y Pwyllgor.

9.Cynigir hefyd fod yr adroddiad yn cael ei dynnu at sylw'r holl Aelodau sy'n ymuno â'r Pumed Cynulliad, dull y cytunwyd arno gan y Pwyllgor Busnes yn ei gyfarfod yr wythnos diwethaf.

10.Ar ôl cael gwybod am yr Offerynnau Statudol hyn ar ddechrau'r Pumed Cynulliad, bydd gan Aelodau'r Cynulliad wedyn yr hawl i gyflwyno cynigion yn cynnig bod y Cynulliad yn diddymu'r Offerynnau Statudol a wnaed gan Weinidogion Cymru (ar yr amod bod cynigion o'r fath yn cael eu trafod gan y Cynulliad o fewn 40 diwrnod i osod yr Offeryn Statudol). Bydd dyddiadau gosod a'r dyddiad y bydd y cyfnod 40 niwrnod yn dod i ben yn cael eu cynnwys yn y papur y cyfeirir ato ym mharagraff 8 uchod.

## Camau gweithredu

11.Gofynnir i'r Pwyllgor gytuno ar y dull a nodwyd ym mharagraffau 8 a 9 uchod.

# Atodiad 1

**Dylid defnyddio adroddiad ar sail rhagoriaeth "safonol" arfaethedig ar gyfer yr holl Offerynnau a ddaeth i law yn rhy hwyr i gael eu hystyried yn llawn gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol cyn diddymiad y Cynulliad.**

Gosodwyd pob un o'r Offerynnau a ganlyn gerbron y Cynulliad yn rhy hwyr i ganiatáu iddynt gael eu hystyried yn llawn gan Bwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Pedwerydd Cynulliad.

Yn y Pumed Cynulliad, nid yw'n debygol y caiff y pwyllgor perthnasol ei sefydlu tan ar ôl i'r terfyn amser o 20 niwrnod ar gyfer cyflwyno adroddiad ddod i ben. Mae'n bosibl y bydd y terfyn amser o 40 niwrnod, pan gaiff y Cynulliad ddirymu'r Offerynnau, hefyd wedi dod i ben cyn y caiff y pwyllgor newydd gyfle i ystyried yr Offerynnau hyn.

O dan yr amgylchiadau hynny, ni fyddai'r Offerynnau wedi bod yn destun gwaith craffu gan y Cynulliad, a byddai Aelodau'r Cynulliad wedi colli cyfle i gyflwyno cynigion i ddirymu unrhyw un o'r Offerynnau.

Felly, mae'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol wedi cytuno i gyflwyno adroddiad, o dan Reol Sefydlog 21.3, yn nodi y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol dalu sylw arbennig at yr Offerynnau Statudol hyn am eu bod yn ymwneud â materion polisi cyhoeddus sy'n debygol o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad, gan ei bod yn bosibl y byddant yn osgoi'r trefniadau craffu arferol ar gyfer Offerynnau Statudol.

- [Enw pob offeryn gan gynnwys eglurhad byr o'i ddiben, y dyddiad pan ddaw i ryw a'r dyddiad olaf y gall y Cynulliad gytuno ar gynnig i'w ddirymu.]